



**SWYDDOG YSTADEGOL A DADANSODDI RISG (DROS DRO)  
RHIF Y SWYDD: NU198  
CYFNOD PENODOL O 12 MISOEDD**

**37 AWR YR WYTHNOS  
GRADD 11: £37,938 i £38,626**

Mae swydd wag dros dro wedi codi o fewn y tîm Cynllunio, Perfformiad a Risg yng Ngwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, a leolir yn ein Pencadlys, Parc Busnes Forest View, Llantrisant, CF72 8LX.

Ein gweledigaeth yw i wneud De Cymru'n ddiogelach wrth leihau risg. Fel Swyddog Ystadegol a Dadansoddi Risg, byddwch chi'n ymuno â thîm sy'n canolbwyntio ar ddarparu dadansoddiad i gefnogi penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Mae'r tîm yn gyfrifol am ddadansoddi a dehongli data a gwybodaeth o bob rhan o'r Gwasanaeth gan gynnwys gwybodaeth rifiadol, ysgrifenedig, graffigol a geoofodol. Bydd gennych brofiad o werthuso a rheoli setiau data cymhleth, gan gydnabod pwysigrwydd mewnwelediadau data i sicrhau gwelliant mesuradwy. Bydd eich sgil yn gwneud data'n hygyrch i ddefnyddwyr ar bob lefel, gan gynnwys ein partneriaid a'r cyhoedd. Bydd hyn yn sicrhau ein bod yn rheoli ac yn adrodd ar ein perfformiad yn effeithiol yn unol â'r holl ofynion deddfwriaethol perthnasol ac yn darparu gwybodaeth amserol, o ansawdd i'n rhanddeiliaid.

Mae profiad o gyfres gymwysiadau MS Office yn enwedig Excel, Pwynt Pŵer ac Outlook yn hanfodol. Rydym yn defnyddio SQL a QGIS yn rheolaidd i ymholi a delweddu data - byddai profiad o'r rhain neu systemau tebyg yn fuddiol, ond darperir hyfforddiant. Mae sgiliau trefniadol rhagorol, cywirdeb a chynnig sylw i fanwl gywirdeb hefyd yn hanfodol i'r rôl. Bydd y swydd heriol hon yn gofyn bod yr ymgeisydd llwyddiannus yn gweithio'n gydweithredol â phersonél Gwasanaethau Tân ac Achub eraill ac felly mae'r gallu i deithio'n ofynnol. Mae sgiliau Iaith Gymraeg yn ddymunol ar gyfer y swydd hon ond nid yn hanfodol. Byddwch yn cael eich lleoli yn ein Pencadlys yn Llantrisant.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch y rôl swydd, fe'ch gwahoddir i gysylltu â'n Rheolwr Cynllunio, Perfformiad a Risg David Canning drwy law e-bost: [d-canning@southwales-fire.gov.uk](mailto:d-canning@southwales-fire.gov.uk)

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn amodol ar wiriad cofnod troseddol sylfaenol boddhaol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a bydd gofyn iddo/iddi ymgymryd â Phrawf Cyffuriau ac Alcohol cyn gwneir penodiad.

Gwahoddir ceisiadau gan ymgeiswyr sydd â phrofiad a chymwysterau priodol yn unol ag amlinelliad y Fanyleb Person. Sylwch fod hon yn broses hynod gystadleuol a dim ond y rhai sydd wedi dangos tystiolaeth lawn yn erbyn yr holl feini prawf hanfodol ar y fanyleb person fydd yn mynd ymlaen i'r Broses Ddethol. Mae sgiliau Iaith Gymraeg yn ddymunol ar gyfer y swydd hon ond nid yn hanfodol.

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw 12:00 ganol dydd, 22/11/2024.

Dylid llenwi Ffurflenni Cais ar-lein drwy ein system e-recriwtio, y gellir ei chyrru drwy ein gwefan: <https://www.decymru-tan.gov.uk/gweithio-gyda-ni/swyddi-diweddaraf/> Os oes angen fersiwn papur, anfonwch e-bost at: [personel@decymru-tan.gov.uk](mailto:personel@decymru-tan.gov.uk)

Dylai pob ymgeisydd mewnol sy'n gwneud cais wneud cais drwy ei borth, gan ddewis "Swyddi Gwag Cyfredol" o'r tab ar y chwith. Sylwch y bydd y system e-recriwtio yn hysbysu pob ymgeisydd o'r canlyniadau drwy law'r cyfeiriad e-bost a ddarparwyd wrth ymgeisio.

Mae'r holl ddogfennaeth ar gael yn Saesneg a Chymraeg ill dau ac rydym yn croesawu cyfathrebiadau yn y naill iaith â'r llall. Ni chaiff ceisiadau a gyflwynir yn Gymraeg eu trin yn llai ffafriol. Rhoddir cyfle i ymgeiswyr sy'n llwyddiannus yn y cam Rhestr Fer i gadarnhau eu dewis iaith ar gyfer cyfweiliadau ac asesiadau (gan gynnwys gwaith papur, cyflwyniadau ar lafar a chwestiynau cyfweled). Bydd trefniadau yn cael eu cadarnhau yn dilyn y gwahoddiad i gyfweiliad ac fe all gynnwys Cyfieithydd a Chyfieithu/neu Gyfieithu ar y Pryd.

**Mae GTADC yn credu fod gwir werth mewn cael gweithlu amrywiol ac rydym am fod yn rhagweithiol wrth annog ymgeiswyr o bob sector o'n cymuned i ymgeisio.**

